# Darparu cymorth a mynd i'r afael ag achosion lle mae plant a phobl ifanc yn datgelu camdriniaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â mynd i'r afael ag achosion lle mae plentyn neu berson ifanc yn datgelu ei fod yn destun camdriniaeth, fel bwlio, a chymryd y camau priodol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dangos arwyddion o drallod, neu lle mae amgylchiadau'n awgrymu y gallai cam-drin fod wedi digwydd
2. cyfathrebu â phlant a phobl ifanc ar gyflymder ac mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion
3. cefnogi plant a phobl ifanc i drafod eu sefyllfa, a rhoi'r amser a'r preifatrwydd iddynt ddatgelu'r hyn a ddymunant
4. cadarnhau ffeithiau, amgylchiadau a natur y cam-drin a ddioddefwyd, gan gynnwys yr unigolion hynny a oedd yn rhan ohono
5. gwirio gwybodaeth trwy gadarnhau yn erbyn yr hyn sydd ar gael eisoes a nodi a gwirio unrhyw anghysondebau yn yr wybodaeth a roddwyd
6. nodi ac asesu'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â'r sefyllfa, ac i atal ailadrodd y cam-drin
7. esbonio'r opsiynau sydd ar gael i'r plentyn neu'r person ifanc a'i gefnogi i ystyried y ffordd ymlaen y mae’n ei ffafrio a hynny gan sicrhau ei fod yn deall y camau a gymerir
8. cytuno ar ffordd ymlaen i fynd i'r afael â natur a difrifoldeb y cam-drin yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad ac anghenion y plentyn neu'r person ifanc
9. cymryd camau sy'n briodol i natur a difrifoldeb y cam-drin
10. rhoi gwybod i bobl eraill briodol am y datgeliad, gan ddarparu gwybodaeth gywir a chyflawn am y cam-drin o fewn yr amserlenni gofynnol
11. cynnig cymorth i'r plentyn neu'r person ifanc mewn ffyrdd sy'n briodol i'w ddealltwriaeth o'r sefyllfa
12. cadw cofnodion cywir o'r cam-drin a'r camau a gymerwyd, a sicrhau bod partïon priodol yn cael eu hysbysu
13. cadw cyfrinachedd priodol, yn unol â gofynion rheoleiddiol a gofynion eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. deddfwriaeth berthnasol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n berthnasol i'ch

sefydliad ei hun ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud

1. sut i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc a sut i addasu yn briodol
2. sut mae trawma yn effeithio ar blant a phobl ifanc
3. sut i gadw at godau proffesiynol neu safonau ymarfer
4. sut i weithio o fewn gofynion cyfreithiol perthnasol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol gan gynnwys gofynion diogelu ac amddiffyn plant
5. sgiliau datblygu a rhianta gan gynnwys sgiliau corfforol, gwybyddol, emosiynol, cymdeithasol a chyfathrebu
6. sut i nodi ac ymateb i bryderon diogelu
7. mathau o gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar blant a phobl ifanc
8. Sut i hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant trwy weithio gyda phlant a phobl ifanc
9. polisïau eich sefydliad sy'n ymwneud â datgelu cam-drin a chefnogi'r rhai sydd wedi cael eu cam-drin
10. mathau o gam-drin a dangosyddion cam-drin posibl mewn plant a phobl ifanc
11. canlyniadau emosiynol posibl cam-drin i'r plentyn neu'r person ifanc
12. sut y gall plant a phobl ifanc wneud camgyhuddiad o gam-drin yn fodd o dynnu sylw atynt eu hunain, a dulliau o wirio cyhuddiadau
13. pwysigrwydd delio â chyhuddiadau achosion o gam-drin a sut i wneud hyn
14. amgylchiadau pan fydd polisi neu ofynion cyfreithiol eich sefydliad yn golygu bod gofyn diystyru cyfrinachedd
15. pwysigrwydd sicrhau na ddylai cael a chofnodi manylion datgelu niweidio hawliau'r plentyn neu'r person ifanc i fynd ar drywydd camau cyfreithiol
16. pwysigrwydd caniatáu i blant a phobl ifanc gyfathrebu a datgelu ar eu cyflymder eu hunain, a pham y gallant fod yn amharod neu ddewis peidio â datgelu
17. sut i greu amgylchedd sy'n tawelu meddyliau plant a phobl ifanc
18. sut i gymhwyso ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn eich maes gwaith
19. sut mae trawma yn effeithio ar blant a phobl ifanc a sut i sicrhau bod eich ymarfer yn ystyried hyn
20. sefydliadau eraill sy'n cefnogi plant a phobl ifanc a sut i gael gafael ar eu cymorth

21. ffynonellau cymorth a chefnogaeth i fynd i'r afael â chanlyniadau emosiynol achosion sy'n ymwneud â cham-drin plant a phobl ifanc arnoch chi

SFJGC12

Darparu cymorth a mynd i'r afael ag achosion lle mae plant a phobl ifanc yn datgelu camdriniaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2025 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2030 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJGC12 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Cyfiawnder Ieuenctid, Rheolwr Cyfiawnder Ieuenctid, Gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc, Ymarferydd Cyfiawnder Ieuenctid, Rheolwr Tîm Troseddwyr Ifanc |
| **Cyfres/Set** | Cyfiawnder Ieuenctid, Ailsefydlu Troseddwyr |
| **Geiriau Allweddol** | Asesiad a arweinir gan risg; asesu; rhwydwaith, teulu, ymddygiad, cymorth |